

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Gofal Deintyddol Glenhaven,
Ffynnon Taf

Dyddiad yr arolygiad: 25 Gorffennaf 2023

Dyddiad cyhoeddi: 25 Hydref 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

| | | |
|----|--|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom | 5 |
| 2. | Crynodeb o'r arolygiad | 6 |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym | 8 |
| | • Ansawdd Profiad y Claf | 8 |
| | • Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol | 12 |
| | • Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | 17 |
| 4. | Y camau nesaf | 21 |
| | Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad | 22 |
| | Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith | 23 |
| | Atodiad C - Cynllun gwella..... | 24 |

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ofal Deintyddol Glenhaven ar 25 Gorffennaf 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 45 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am y gwasanaeth.

Gwelsom fod y staff yn y practis yn trin y cleifion yn garedig a pharchus ac roeddent yn cynnwys y cleifion wrth wneud penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth deintyddol.

Cawsom wybod am systemau da o hysbysu cleifion ynghylch amseroedd aros ac oedi.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol, gan nodi bod y gwasanaeth roeddent wedi'i gael yn 'dda iawn'
- Roedd llawer o wybodaeth ar gael i gleifion drwy ardaloedd y cleifion.
- Roedd y practis yn ymdrechu i drefnu apwyntiad i'r cleifion yn ystod amser a oedd yn addas iddynt.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod safle'r practis mewn cyflwr da, wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon uchel gyda phob ardal i'w gweld yn lân.

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu gofal a thriniaeth deintyddol. Roedd y cyfarpar a welsom yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg.

Roedd cyfarpar a meddyginiaethau i'w defnyddio mewn argyfwng ar gael yn rhwydd yn y practis. Disgrifiwyd system newydd sy'n cynnal gwiriadau awtomataidd o stociau ac sy'n nodi pryd y bydd angen cael meddyginiaethau newydd.

Gwelsom fod digon o staff wedi'u hyfforddi'n addas ar waith yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Gwelsom fod system briodol ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu rheoli, eu storio a'u cadw'n ddiogel am y cyfnod priodol, yn unol â'r rheoliadau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y practis ystafell ddihalogi ar wahân a chafodd y broses effeithiol ar gyfer glanhau a dihalogi offer deintyddol aml dro ei disgrifio a'i dangos
- Archwiliadau clinigol rheolaidd er mwyn sicrhau bod safonau yn cael eu cynnal
- Adolygu a diweddarau'r polisiâu yn rheolaidd, fel y bo angen.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd tîm rheoli ymroddedig ac ymrwymedig ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd clir. Roedd adborth gan y staff yn gadarnhaol mewn perthynas â gweithrediad y practis.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu ar gael yn hwylus i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau.

Gwelsom fod y practis yn cael ei reoli'n dda gyda phrosesau gweithio da wedi'u rhoi ar waith drwyddi draw, archwiliadau mewnol ac allanol rheolaidd, dull rhagweithiol o fabwysiadu technoleg newydd a chyfarfodydd ac arfarniadau tîm rheolaidd. Gwnaethom arsylwi'r rheolwyr ac roedd gan y staff gydberthynas gweithio da iawn gyda nhw ac roeddent yn rhannu'r un nod, sef darparu'r profiad gorau i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn gallu cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w gwaith
- Roedd y staff yn ymwybodol o'r broses adborth a chwythu'r chwiban ac roeddent yn gyfforddus yn codi unrhyw faterion
- Roedd y systemau TG mewnol yn darparu mynediad cyflym i gofnodion, polisiâu a dogfennaeth arall.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Nododd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'dda iawn'.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Mae hwn yn bractis deintyddol ardderchog. Mae'r staff yn groesawgar ac yn wybodus. Rwy'n gwybod fy mod i mewn dwylo diogel wrth ymweld â'r practis hwn.”

“Mae hwn yn bractis modern a chwaethus iawn, rydw i wedi bod yn falch iawn o allu bod yn glaf yma. Mae'r gwelliant yn iechyd fy nannedd ers imi ymuno â'r practis hwn wedi bod yn anhygoel. Fyddwn i ddim am gael fy nhrin unrhyw le arall.”

“Mae'r gwasanaeth rydw i wedi'i gael o'r radd flaenaf. Mae pob aelod o'r staff yn gwrtais iawn ac o help mawr. Mae gen i hyder llwyr yn y driniaeth rydw i wedi'i chael. Byddwn i'n argymhell y practis i unrhyw un.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn cael cyngor hybu iechyd wrth gael eu gweld gan y deintyddion neu weithwyr deintyddol proffesiynol eraill a oedd yn gweithio yn y practis. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai'r cleifion yn cael eu cyfeirio at wybodaeth sydd ar gael yn yr ardaloedd aros.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei ddeall. Dywedwyd wrthym hefyd bod y staff wedi darparu cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gwelsom fod arwyddion yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi gwybod i gleifion ac ymwelwyr â'r practis nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle. Roedd hyn yn unol â deddfwriaeth gyfredol i helpu i atal clefydau a achosir gan fwg ail-law.

Gofal Urddasol a Pharchus

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff yn trin y cleifion a'r cynrychiolwyr â charedigrwydd a pharch.

Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau pan oedd deintyddion yn gweld cleifion, a oedd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Gwelsom hefyd bod bleinds ar y ffenestri yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau preifatrwydd.

Dywedodd pawb a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch.

Roedd desg y dderbynfa yn yr ystafell aros. Fodd bynnag, roedd staff y dderbynfa yn gwybod bod angen iddynt gynnal cyfrinachedd y cleifion wrth siarad â nhw, gan gynnwys wrth gynnal sgysiau dros y ffôn. Roedd ystafell ymgynghori seinglos ar wahân ar gael i drafod materion sensitif gyda staff y practis.

Nid oedd egwyddorion moesegol ymarfer craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld ar y safle.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael iddynt, ynghyd â risgiau a buddiannau'r driniaeth.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cymryd cymaint o ran ag yr hoffent mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

Amserol

Gofal Amserol

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio gwasanaeth negeseuon ar unwaith sy'n rhybuddio'r dderbynfa am unrhyw achosion o oedi. Byddai staff y dderbynfa yn rhoi gwybod i'r cleifion pe byddai unrhyw oedi cyn iddynt gael eu gweld yn eu hapwyntiad. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai'r staff nyrso, os oeddent ar gael, yn trafod opsiynau gyda chleifion a allai gynnwys aildrefnu eu hapwyntiad yn ôl eu dymuniad.

Mae'r practis wrthi'n cynnal treialon o system trefnu apwyntiadau ar-lein ar gyfer gwasanaethau penodol. Os bydd yn llwyddiannus, bydd yn mynd ati i'w chyflwyno i rannau eraill o'r busnes.

Lle roedd angen triniaeth ddeintyddol ar gleifion ar frys, dywedwyd wrthym y byddai hyn yn cael ei drefnu dros y ffôn neu fel claf cerdded i mewn. Dywedwyd wrthym fod y practis bob amser yn trefnu i ddeintydd fod ar gael am awr ar gyfer posibiliadau o'r fath. Os byddant yn methu â gwneud hyn, byddant yn parhau i ymdrechu i wneud lle i'r cleifion ar yr un diwrnod.

Roedd oriau agor a rhif cyswllt mewn argyfwng y practis yn cael eu harddangos yn glir a gellid eu gweld o du allan i'r safle. Roedd rhif cyswllt mewn argyfwng y GIG hefyd wedi'i gynnwys ar gyfer pobl nad oeddent yn gleifion. Dywedwyd wrthym fod gan y practis rota y tu allan i oriau gwaith er mwyn i gleifion allu mynychu y tu allan i'w horiau agor arferol os oedd angen.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (40/45) wrthym eu bod wedi ei chael hi'n 'hawdd iawn' trefnu apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Dywedodd yr ymatebwyr eraill wrthym eu bod wedi ei chael hi'n 'eithaf hawdd' trefnu apwyntiad. At hynny, dywedodd y mwyafrif (43/45) wrthym y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Dywedwyd wrthym nad oes rhaid i'r cleifion aros yn hir rhwng pob apwyntiad triniaeth.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom mai dim ond yn Saesneg roedd y wybodaeth ysgrifenedig a oedd wedi'i harddangos yn y practis. Fodd bynnag, mae'r practis yn ystyried opsiynau i gyfieithu taflenni ac mae eisoes wedi buddsoddi mewn dogfennau hawdd eu deall, wedi gosod dolen sain ac mae sbectol darllen sbâr ar gael yno os oes angen i gleifion ei ddefnyddio.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw aelod o'r staff yn y practis yn gallu siarad Cymraeg. Lle bo angen, cawsom wybod bod gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r staff i'w helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Dywedwyd wrthym eu bod yn gofyn i bob glaf nodi ei ddewis iaith gyntaf wrth wneud cais i fod yn glaf. Dywedwyd wrthym nad oedd neb wedi gofyn i'r Gymraeg gael ei nodi fel eu dewis iaith.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC mai Saesneg oedd eu hiaith gyntaf.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod gofal a thriniaeth deintyddol yn cael eu darparu yn y practis mewn modd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion.

Gwelsom fod gan y practis bolisi chydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith yr oedd pob aelod o'r staff wedi'i ddarllen ac yn cytuno arno.

Roedd mynediad gwastad i safle'r practis ac roedd yr holl ystafelloedd trin wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod ynghyd â thoiled gyda chyfleusterau golchi dwylo, a oedd yn gwneud y gwasanaeth yn hygyrch i gleifion. Roedd y safle wedi'i ail-ddylunio'n llwyr gyda choridorau a drysau llydan yn rhoi mynediad hawdd i'r cyfleusterau ar gadair olwyn.

Dyweddodd y rhan fwyaf (43/45) o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y practis. Dywedodd un ymatebydd wrthym ei fod o'r farn iddo brofi gwahaniaethu ar sail oedran ond ni roddodd rhagor o fanylion. Ni wnaeth yr ymatebydd arall ateb y cwestiwn.

Yn ogystal, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (41/45) wrthym fod y safle yn hygyrch.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Gwelsom fod y safle mewn cyflwr da gyda chynllun da ac ystafelloedd o faint priodol. Y tu mewn i'r safle, roedd yr amgylchedd wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon uchel.

Roedd pob rhan o'r practis yr oedd yn bosibl i'r cleifion fynd iddynt yn daclus ac yn rhydd o beryglon. Gwelsom fod yr un peth yn wir am ardaloedd y staff, gan gynnwys ystafell loceri lle gallai'r staff newid.

Gwelsom fod trefniadau da ar waith mewn perthynas â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH). Roedd asesiad risg COSHH addas ar waith ar gyfer pob sylwedd peryglus i iechyd, a oedd yn cael ei gadw dan glo yn ddiogel.

Gwelsom fod asesiad risg tân cynhwysfawr wedi'i gwblhau o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Dengys hyn fod trefniadau priodol ar waith mewn perthynas â diogelwch tân yn yr adeilad ac ni wnaed unrhyw argymhellion. Gwelsom fod allanfeydd tân ac arwyddion gwagio'r adeilad i'w gweld yn hawdd drwy'r safle. Roedd contract cynnal a chadw cyfarpar diffodd tân cyfredol ar waith ac roedd archwiliadau wedi'u cynnal o fewn y 12 mis diwethaf. Gwelsom fod cyfarpar diogelwch tân wedi'u lleoli mewn sawl lleoliad ac roeddent ar gael i'r staff ei ddefnyddio pe bai tân. Gwelsom fod archwiliad o oleuadau argyfwng diweddar wedi methu ond gwelsom dystiolaeth fod camau unioni ar y gweill ar gyfer dechrau mis Awst 2023. Gwelsom fod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân a gwelsom dystiolaeth o hyn yn sampl y ffeiliau staff y gwnaethom eu hadolygu.

Gwelsom fod asesiad risg iechyd a diogelwch wedi'i gynnal o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd poster Iechyd a Diogelwch cymeradwy yn cael ei arddangos yn glir i'r staff ei weld.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau cyfredol ar waith mewn perthynas â rheoli risg, iechyd a diogelwch ac addaswydd y safle. Roedd polisi wrth gefn mewn argyfwng ar waith, gyda rhestr o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai'n bosibl darparu'r ystod lawn o wasanaethau yn sgil digwyddiadau fel cyfarpar yn methu, llifogydd neu os bydd y system yn methu. Roedd hyn yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y

tîm ymateb mewn argyfwng dynodedig a rhestr o rifau cyswllt mewn argyfwng ar gyfer contractwyr. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r cynllun parhad busnes.

Gwnaethom gadarnhau bod yswiriant atebolrwydd cyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus ar waith.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi.

Gwelsom fod yr ystafell aros a'r deintyddfeydd yn lân a'u bod wedi'u dodrefnu mewn ffordd a oedd yn hwyluso trefniadau glanhau effeithiol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (43/45) a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod o'r farn bod amgylchedd y practis yn 'lân iawn'. Ni wnaeth yr ymatebwyr eraill ateb y cwestiwn. Roedd y rhan fwyaf (44/45) hefyd o'r farn bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ar gael ym mhob deintyddfa ac yn y toiledau. Gwelsom fod posteri wedi'u harddangos ger y sinciau golchi dwylo a oedd yn rhoi cyngor i'r staff a'r cleifion ar y weithdrefn gywir i'w dilyn er mwyn sicrhau eu bod yn golchi eu dwylo yn effeithiol. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael yn hwylus i'r staff a'r cleifion ei ddefnyddio.

Roedd cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hwylus i'r staff ei ddefnyddio.

Roedd ystafell ddihalogi ddynodedig, wedi'i lleoli i ffwrdd o'r cyfleusterau clinigol. Roedd system briodol ar waith er mwyn cludo'r offer a oedd wedi'u defnyddio o'r deintyddfeydd i'r ystafell ddihalogi. Cafodd y trefniadau ar gyfer glanhau a dihalogi offer deintyddol aml dro yn effeithiol eu disgrifio a'u dangos. Gwelsom fod y cofnodlyfrau wedi'u cwblhau i ddangos bod gwiriadau priodol o'r cyfarpar dihalogi wedi'u cynnal.

Gwelsom fod y gwastraff a gynhyrchir gan y practis yn cael ei storio'n ddiogel mewn cynwysyddion priodol cyn iddo gael ei gasglu i'w gwaredu. Gwelsom hefyd fod contract cyfredol ar waith i drosglwyddo gwastraff yn ddiogel o'r practis.

Gwnaethom gadarnhau bod y rhan fwyaf o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau a gwelsom dystiolaeth o hyn yn sampl y ffeiliau staff y gwnaethom eu hadolygu. Fodd bynnag, gwelsom fod hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar goll ar gyfer un aelod o'r staff ond cawsom sicrwydd bod y cwrs hyfforddiant hwn ar ddod. Rhoddwyd tystiolaeth i AGIC fod yr hyfforddiant hwn wedi'i gwblhau ar y diwrnod yn dilyn yr arolygiad (26 Gorffennaf 2023).

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod polisi cyfredol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn y practis. Gwelsom hefyd fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, gan gynnwys y meddyginiaethau a oedd angen eu cadw mewn oergell.

Cawsom wybod y byddai digwyddiadau niweidiol mewn perthynas â meddyginiaethau yn cael eu cofnodi gan staff y practis gan ddefnyddio'r cynllun Cerdyn Melyn.

Gwelsom fod polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith ar gyfer ymateb i argyfwng meddygol yn y practis. Cawsom wybod y gallai cleifion wneud cais amdano.

Roedd cyfarpar a meddyginiaethau i'w defnyddio mewn argyfwng ar gael yn rhwydd yn y practis. Disgrifiwyd system newydd sy'n cynnal gwiriadau awtomataidd o stociau ac sy'n nodi pryd y bydd angen cael meddyginiaethau newydd. Gwelsom hefyd fod cofnodion gwiriadau wedi'u cwblhau, a'u bod yn cadarnhau bod pob meddyginiaeth o fewn ei dyddiad defnyddio.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant dadebru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff a adolygwyd gennym.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom fod gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â diogelu ac roedd manylion cyswllt perthnasol ar gyfer timau diogelu lleol ar gael i'r staff pe bai pryder.

Gwelsom fod yr holl staff yn cael hyfforddiant priodol a'u bod yn gwybod am brosesau diogelu. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi lawrlwytho ap Diogelu Cymru Gyfan i'w ffôn.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu gofal a thriniaeth deintyddol. Roedd y cyfarpar a welsom yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg.

Roedd archwiliadau pelydr-X yn cael eu cyflawni yn y practis. Gwelsom fod y ddogfennaeth ofynnol ar gael i ddangos bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y profion gofynnol wedi'u cynnal ar y cyfarpar.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis, sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cyfarpar pelydr-x, naill ai wedi cwblhau neu wrthi'n

cwblhau hyfforddiant perthnasol ar y maes hwn a gwelsom dystiolaeth o hyn mewn sampl o ffeiliau staff y gwnaethom eu hadolygu.

Gwelsom fod taflenni gwybodaeth yn cael eu harddangos i gleifion ar risgiau a manteision cael pelydr-X, yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod digon o staff wedi'u hyfforddi'n addas ar waith yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom fod y staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y practis.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio rhestrau gwirio wedi'u hargymell er mwyn helpu i leihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael cyngor proffesiynol perthnasol lle bo angen. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir ar gynnal iechyd y geg da a dywedodd pob un ohonynt eu bod wedi cael canllawiau ar yr hyn i'w wneud os bydd haint neu argyfwng, lle roedd hyn yn gymwys.

Cofnodion y Cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal deintyddol deg claf. Gwelsom fod system briodol ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel. Dywedwyd wrthym fod cofnodion yn cael eu cadw am y cyfnod priodol yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd gan yr holl gofnodion y gwnaethom edrych arnynt ddynodyddion cleifion addas, fel enw a dyddiad geni'r claf, y rheswm dros fynychu a chofnodwyd hefyd y symptomau a ddisgrifiwyd gan gleifion.

Roedd yr holl gofnodion yr edrychwyd arnynt yn cynnwys hanes deintyddol blaenorol, gan gynnwys defnydd o alcohol a thybaco, ac roedd yn cynnwys system i sicrhau bod hanes meddygol yn cael ei wirio ym mhob ymgynghoriad. Cadarnhaodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC mai dyma oedd yr achos.

Gwelsom dystiolaeth o siartiau sylfaenol llawn, cofnodion Archwiliad Periodontol Sylfaenol, archwiliad meinweoedd meddal, archwiliadau ychwanegol ac archwiliadau yn y geg a phrofion sgrinio am ganser. Roedd y cofnodion hefyd yn dangos bod y cleifion wedi cael gwybodaeth am hybu iechyd y geg, lle y bo'n briodol.

Roedd y cofnodion hefyd yn dangos tystiolaeth o waith cynllunio triniaeth, gan gynnwys opsiynau, a bod cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi'i dderbyn gan gleifion cyn eu triniaeth. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi egluro'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod eu hapwyntiad a bod y staff wedi ateb eu cwestiynau.

Roedd apwyntiadau adalw wedi'u cofnodi yn unol â chanllawiau presennol NICE. Lle roedd archwiliadau pelydr-x yn cael eu cynnal, gwelsom fod cyfiawnhad a barn briodol wedi cael eu nodi a bod canfyddiadau clinigol wedi cael eu cofnodi. Nodwyd gennym hefyd nad oedd dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi. Fodd bynnag, cawsom wybod bod y practis yn cael y wybodaeth hon wrth gofrestru claf yno.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Lle gwych i weithio.”

“...Mae'r staff yn cael gofal...”

“...mae'r holl staff yn Glenhaven yn gweithio'n dda iawn fel tîm...”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Practis teuluol yw hwn a gaiff ei weithredu gan bedwar aelod o'r teulu sydd wedi'u penodi'n gyfarwyddwyr, ac un ohonynt yw'r prif ddeintydd. Roedd rheolwr busnes yn cael ei gyflogi a oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Disgrifiwyd llinellau adrodd clir.

Cafodd y trefniadau addas eu disgrifio ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol â tîm o staff y practis. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd staff a chyfathrebu ad hoc â'r staff drwy e-bost neu wyneb yn wyneb. Gwelsom fod cofnodion cyfarfodydd yn cael eu cymryd a'u darparu i'r staff sy'n absennol er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf mewn materion cysylltiedig â'r gwaith.

Gwnaethom gadarnhau bod amrywiaeth o bolisiau ysgrifenedig ar gael i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau. Roedd y sampl o bolisiau a welsom yn dangos eu bod wedi cael eu hadolygu yn ystod y 12 mis diwethaf ac wedi'u cymeradwyo gan staff a wnaeth gadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion cyfredol, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y gwasanaethau a gynigir yn y practis. Adolygwyd y ddwy ddogfen yn ystod y 12 mis diwethaf.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Yn ogystal â'r prif ddeintydd a'r rheolwr, roedd tîm y practis yn cynnwys pedwar deintydd cyswllt, hylenydd, nyrsys deintyddol a derbynyddion. Dywedwyd wrthym nad oedd staff asiantaeth yn cael eu defnyddio.

Roedd enwau'r deintydd a'r gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n gweithio yn y practis i'w gweld yn glir ochr yn ochr â'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd y rhain yn cael eu harddangos ar sgriniau gwybodaeth yn ardaloedd aros y cleifion.

Cawsom wybod bod cymysgedd sgiliau a nifer y staff yn briodol i gyflawni'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn a bod y cymysgedd sgiliau yn y practis yn briodol.

At hynny, dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y practis yn cymryd camau cadarnhaol o ran materion iechyd a llesiant ac nad oedd eu swyddi, yn gyffredinol, yn niweidiol i'w hiechyd. Roedd y rhan fwyaf o'r staff (7/8) yn ymwybodol o'r cymorth lechyd Galwedigaethol a oedd ar gael iddynt.

Roedd gan y practis bolisi recriwtio cyfredol a oedd yn nodi'r holl wybodaeth a'r ddogfennaeth y mae angen iddynt fod ar gael mewn perthynas â staff sy'n gweithio mewn practisau deintyddol.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau staff sy'n gweithio yn y practis, Gwelsom fod pob aelod o'r staff yn meddu ar dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) dilys a thystiolaeth (lle y bo'n ofynnol) o yswiriant indemniad, tystiolaeth o gofrestriad cyfredol gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a thystiolaeth o frechiadau. Cafodd system addas ei disgrifio ar gyfer cynnal gwiriadau parhaus o gofrestriad deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n gweithio yn y practis gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwelsom fod proses sefydlu ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff yn y practis. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau'r practis a'u bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Gwelsom fod y staff a gyflogwyd gan y practis yn cael arfarniadau gwaith rheolaidd. Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf.

O fewn y sampl o ffeiliau a adolygwyd gennym, gwelsom fod staff a oedd yn gweithio yn y practis wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau yn y practis. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff (7/8) a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu swyddi, tra dywedodd yr ymatebydd arall wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cytuno'n rhannol. Roedd y sylwadau a ddarparwyd yn awgrymu y byddai mwy o gysiau i ddatblygu rolau yn fuddiol.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Cafodd y trefniadau eu disgrifio ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion am eu profiadau o ddefnyddio'r practis. Gwelwyd bod taflen Canmoliaeth, Pryderon a Chanllawiau Cwyno ar gael yn ardaloedd aros y cleifion.

Dywedwyd wrthym y gallai cleifion gwblhau ffurflen adborth sydd ar gael wrth y brif fynedfa yn y blaen. Roedd y rhain hefyd ar gael mewn fformat hawdd ei ddarllen. Dywedwyd wrthym y caiff adborth ei ddadansoddi a'i drafod gyda staff trwy sgrymiau dyddiol, cyfarfodydd wythnosol y nyrsys a chyfarfodydd rheoli. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod adborth gan y cleifion yn cael ei gasglu.

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno ysgrifenedig gyfredol ar waith er mwyn rheoli cwynion am y gofal deintyddol a ddarperir yn y practis. Roedd hon i'w gweld fel poster dwyieithog yn ardal y dderbynfa ac roedd yn cynnwys manylion y rheolwr cwynion ac yn nodi'r amserlen ymateb ddisgwyliedig. Roedd manylion sefydliadau eraill y gallai'r cleifion fynd atynt am help a chymorth wedi'u cynnwys fel rhan o'r wybodaeth a oedd wedi'i harddangos ac a oedd i'w gweld yn y daflen wybodaeth.

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (43/45) a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon / cwynion ar ôl triniaeth.

Roedd system ddigidol ar waith ar gyfer cofnodi cwynion a wneir i'r practis, yr oedd modd i'r holl staff fynd ati. Dywedwyd wrthym fod y broses ddatrys wedi'i dogfennu drwyddi draw. Gwelsom dystiolaeth o'r broses hon mewn perthynas â'r gŵyn ddiweddaraf a ddaeth i law'r practis.

Pan ofynnwyd iddynt am y broses o roi gwybod am ddigwyddiadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a phryderon, dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y practis yn annog rhoi gwybod amdanynt a bod y practis yn cymryd camau i sicrhau na fydd digwyddiadau o'r fath yn digwydd eto. Dywedodd pob aelod o'r staff wrthym hefyd bod y practis yn trin y staff sy'n

gysylltiedig â digwyddiadau yn deg, ac y rhoddir adborth iddynt am y newidiadau a wnaed mewn ymateb i'r digwyddiadau.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal archwiliadau rheolaidd, yn fewnol a thrwy Denplan fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis yn defnyddio pecyn cymorth Denplan Excel i helpu gyda gweithgareddau datblygu.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|--|--|--------------------------------|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Gofal Deintyddol Glenhaven

Dyddiad yr arolygiad: 25 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|----------------------------|------------------|-----------------------------------|------------------|----------|
| Ni nodwyd unrhyw faterion lle mae angen sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | | |

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Gofal Deintyddol Glenhaven

Dyddiad yr arolygiad: 25 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|----------------------------|------------------|-----------------------------------|------------------|----------|
| Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn. Mae angen i'r practis gwblhau cynllun gwella. | | | | | |